Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n seiliedig ar adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn
Targed 1	Mireinio fy sgiliau cyfathrebu	Rydw i wedi datblygu fy sgiliau llafar ac ysgrifenedig gan ganolbwyntio ar ddefnyddio amser cywir y ferf.
Targed 2	Parhau i fireinio fy sgiliau dadansoddi beirniadol	Defnyddiais fwy o lenyddiaeth i genfogi'r holl safbwyntiau yn yr adroddiad a'r fideo.

Rhagarweiniad

Nod yr adroddiad hwn yw darganfod sut i wella ysgol a chodi safonau ysgrifennu plant yng Nghymraeg a Saesneg, yng nghyfnod allweddol dau. Bydd rhan gyntaf yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â datblygu ysgol a chodi safonau llythrennedd. Yna, bydd yr adroddiad yn cyflwyno cynllun datblygu ysgol ac yn gwerthuso ei botensial i wella safonau eu disgyblion. Yn dilyn hyn, bydd yr holl wybodaeth yn cael eu tynnu at ei gilydd, er mwyn adolygu datblygiad yr ysgol ac awgrymu argymhellion posib ar gyfer y dyfodol.

Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar ddatblygiad ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Mae tua dau gant o blant yn mynychu'r ysgol hon ac ychydig iawn o blant sy'n siarad Cymraeg yn y cartref (Estyn, 2019a). Mae'r canran o blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn is na'r canran cenedlaethol ac ar y cyfan, mae'r ysgol yn llwyddo i ddarparu addysg dda (Estyn, 2019a). Er mwyn diogelu'r ysgol, bydd yr adroddiad hwn yn cydymffurfio â chanllawiau BERA (2018) trwy gadw enw'r ysgol yn gyfrinachol ac yn anhysbys trwy gydol yr adroddiad.

Adolygiad Llenyddiaeth

Mae datblygu ysgol yn ymdrech barhaus i godi safonau addysgol a gwella deilliannau dysgwyr (Reynolds, 2004). Bydd pob ysgol yn datblygu gweledigaeth unigryw i ddisgrifio eu nodau ac yn gweithio tuag at genhadaeth i gyflawni eu pwrpas mewn cymdeithas (Brighthouse and Woods, 2013). Prif ffocws yr adolygiad hwn yw darganfod sut i ddatblygu ysgol effeithiol a chodi safonau iaith disgyblion mewn ysgolion cynradd yng Nghymru.

Arweinyddiaeth sy'n cael yr effaith fwyaf ar lwyddiant ysgolion sy'n golygu bod angen i arweinwyr benderfynu ar y dull gorau i ddatblygu'r ysgol (Daniëlsa, Hondeghema a Dochy, 2019). Gall arweinwyr ganolbwyntio ar ddatrys problemau'r ysgol a gwaredu'r gwendidau i gynyddu ei effeithiolrwydd (Reynolds, 2004). Er bod y dull hwn yn debygol o sicrhau cynnydd, gall gorddibyniaeth ar ddatrys problemau leihau cymhelliant staff gan fod y ffocws yn bennaf ar agweddau negyddol yr ysgol (Brighthouse a Woods, 1999).

Mewn cyferbyniad, gall arweinwyr defnyddio ymholiad gwerthfawrogol i adeiladau ar gryfderau'r ysgol a datblygu diwylliant ysgol gadarnhaol (Cooperrider, 2012). Trwy gyfuno llwyddiannau'r ysgol a chryfderau'r gymuned, gall arweinwyr ddatblygu cynllun gwella arloesol i godi safonau (Estyn, 2016). Ond, dylid nodi bod ymholiad gwerthfawrogol yn cael eu beirniadu am esgeuluso gwendidau'r ysgol sy'n awgrymu bod rhaid ystyried y darlun cyfannol wrth ddatblygu ysgol effeithiol (Waters a White, 2015).

Yn dilyn hyn, gall ysgol creu cynllun datblygu i nodi blaenoriaethau, targedau, a chamau gweithredu'r ysgol ar gyfer gwella deilliannau'r dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2014). Dylai cynllun datblygu cyd-fynd â gweledigaeth hirdymor yr ysgol a chael eu diweddaru'n gyson i adlewyrchu cynnydd yr ysgol dros dair flwyddyn (Massey, 2013). Ar yr un pryd, mae angen cynnwys y blaenoriaethau cenedlaethol, er mwyn codi safonau plant ar draws y wlad (Llywodraeth Cymru, 2014).

Un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru (2017) yw darparu addysg ragorol sy'n codi safonau llythrennedd pob dysgwr. Mae safonau iaith yng Nghymru yn wan o gymharu â gwledydd eraill ac felly, cyfrifoldeb pob ysgol yw codi perfformiad eu disgyblion (Donaldson, 2015). Yn benodol, y lefelau ysgrifennu yw'r isaf ac nid yw bechgyn yn cyflawni cystal â'r merched (Llywodraeth Cymru, 2019a).

Ar un llaw, mae'r dystiolaeth uchod yn awgrymu bod rhyw yn gallu effeithio ar berfformiad disgyblion i lwyddo. Search hyn, mae'n bwysig nodi bod canfyddiadau Llywodraeth Cymru (2019a) wedi'i seilio'n llwyr ar ganlyniadau'r profion cenedlaethol ac yn ôl Wiliam (2018), nid yw canlyniadau profion bob tro yn adlewyrchu cynnydd a photensial pob disgybl.

Ymhellach, mae Browne (2009) yn dadlau ni ddylai ysgol targedu bechgyn yn unig wrth ddatblygu safonau ysgrifennu oherwydd gall hyn rwystro cynnydd merched. Yn hytrach, credir bod gosod her briodol i bob dysgwr yn fwy effeithiol ar gyfer datblygu safonau llythrennedd (Graham a Kelly, 2010). Gellir sicrhau her trwy ddarparu cwricwlwm amrywiol a chyfoethog sy'n ymestyn sgiliau llythrennedd o fewn ac ar draws y meysydd dysgu a phrofiad (Barnes, 2015; Donaldson, 2015).

Wedi dweud hyn, dylid ystyried unrhyw broblem o safbwynt yr ysgol gan nodi unrhyw rwystrau sy'n effeithio ar berfformiad eu disgyblion (Hanover Research Group, 2014). Yn benodol, gall stereoteipio effeithio'n negyddol ar gynnydd dysgwyr ail iaith (Baker, 2011), ac mae tystiolaeth i gefnogi bod stereoteipio yn bodoli ymhlith dysgwyr ail iaith Cymraeg (Robert, 2009). Ond, ni fydd y cwricwlwm newydd i Gymru yn cyfeirio at Saesneg a Chymraeg fel ail iaith, gan obeithio y bydd dysgu'r ddwy iaith ar un continwwm dysgu yn gwella'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg mewn ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2017).

Yn ychwanegol, credir bod yr arweinwyr gorau yn trechu rhwystrau trwy werthuso perfformiad yr ysgol ar y cyd gydag athrawon, rhanddeiliaid a'r gymuned (Estyn, 2016). Ystyrir ansawdd y gweithlu'n hanfodol wrth gynllunio'n strategol i wella deilliannau'r dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2014). Er mwyn sicrhau gweithlu effeithiol, credir bod angen hyrwyddo diwylliant o ddysgu proffesiynol sy'n galluogi staff i gyflawni blaenoriaethau'r ysgol (Stevenson et al, 2016). Yn benodol, mae'n bwysig darparu hyfforddiant sy'n caniatáu athrawon i ddatblygu eu hiaith Gymraeg a chodi safonau eu disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2017).

Yn ogystal â gwella'r addysgu a'r dysgu yn yr ysgol, credir bod angen mynd y tu hwnt i'r ysgol trwy gydweithio gyda'r gymuned i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2016). Gall meithrin perthnasoedd gyda rhieni, ysgolion, a llywodraethwyr helpu'r arweinydd i ennill ffrindiau beirniadol a gwella perfformiad yr ysgol (Brighthouse and Woods, 2013). Er mwyn tanlinellu hyn, dywed Corbett a Strong (2011) bod safonau dysgwyr yn fwy tebygol o godi pan fydd athrawon yn cydweithredu, yn hytrach na chystadlu yn erbyn ei gilydd.

I grynhoi, awgrymai'r holl lenyddiaeth bod angen arweinydd cryf a thîm ymroddedig i ddatblygu ysgol effeithiol. O ran codi safonau llythrennedd, rhaid diwallu heriau cenedlaethol, yn ogystal ag anghenion unigryw'r ysgol, wrth gynllunio ar gyfer cynnydd. Archwilir hyn yn fanylach wrth drafod cynllun datblygu'r ysgol a gwerthuso eu camau tuag at godi safonau ysgrifennu disgyblion yng nghyfnod allweddol dau.

Datblygu safonau ysgrifennu

Un o brif flaenoriaethau'r ysgol oedd codi safonau ysgrifennu disgyblion yng Nghymraeg a Saesneg yng nghyfnod allweddol dau. Dilynodd yr ysgol cylchred cynllun datblygu ysgol Llywodraeth Cymru (2014) i geisio cyflawni'r flaenoriaeth yn effeithiol a bwriad yr adran hon yw archwilio'r cylchred hwn mewn manylder.

Penderfynodd yr ysgol i weithio ar y flaenoriaeth hon ar ôl hunanwerthuso eu perfformiad. Dyma gam cyntaf y cylchred cynllun datblygu wrth i Lywodraeth Cymru (2014) nodi bod hunanwerthuso yn ddull effeithiol ar gyfer nodi cryfderau a gwendidau'r ysgol. Edrychodd yr ysgol ar berfformiad iaith disgyblion gan ddefnyddio eu system asesu fewnol. Dangosodd y system fod plant yng nghyfnod allweddol dau yn cyrraedd y lefelau ysgrifennu disgwyliedig ac roedd yr ysgol eisiau parhau i adeiladu ar eu perfformiad.

Mae hyn yn dystiolaeth o ymholiad gwerthfawrogol ac yn ôl Cooperrider (2012) mae'n ffordd gadarnhaol o wella ysgol. Ar yr un pryd, mae'r dystiolaeth yn cyfateb i'r flaenoriaeth genedlaethol, gan fod ystadegau Llywodraeth Cymru (2019a) yn awgrymu bod angen gwella safonau ysgrifennu plant yng Nghymru. Yn wyneb hyn, penderfynodd yr ysgol i barhau gyda chylchred Llywodraeth Cymru (2014) drwy ddefnyddio'r wybodaeth o'r hunanwerthusiad i gynllunio targedau ar gyfer gyrraedd eu blaenoriaeth. Mae hwn yn gam bwysig gan fod angen gosod targedau sy'n arwain at wella deilliannau'r dysgwyr (Estyn, 2016).

Ar y cyfan, mae'r targedau gwella yn canolbwyntio ar gasglu data meintiol. Gall casglu data meintiol fod yn ddull cyflym o asesu cynnydd disgyblion gan fod y data yn benodol ac yn hawdd dadansoddi (Punch, 2009). Bydd yr ysgol yn casglu data meintiol trwy asesu'r nifer o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 ac yn uwch yn eu datblygiad ysgrifennu ar ddiwedd pob tymor. Ond, er bod asesiadau yn fuddiol ar gyfer cymharu â thracio cynnydd disgyblion, nid yw'n rhoi rhesymau dros y canlyniadau, (Massey, 2013), sy'n awgrymu bod hyn yn gallu achosi problemau, os nad yw plant yn cwrdd â'r safonau disgwyliedig.

Mewn cyferbyniad, mae data ansoddol yn darparu gwybodaeth fwy manwl a disgrifiadol er mwyn egluro materion cymhleth (Cohen, Manion, Morrisson, 2007). Mae hyn yn awgrymu bod angen cydbwysedd o ddata meintiol ac ansoddol a chefnogir hyn gan Punch a Oancea (2014), wrth iddynt ddadlau bod cyfuno'r dulliau ymchwil yn helpu ymchwilwyr i dderbyn llun cyfannol o'r data. Mae'r cynllun datblygu yn cydnabod hyn gan fod yr uwch dim rheoli yn bwriadu casglu data ansoddol drwy arsylwi gwers iaith yn ffurfiol bob tymor. Mae arsylwi gwersi yn caniatáu arweinwyr i fonitro ansawdd yr addysgu, er mwyn sicrhau bod athrawon yn gweithredu'r gwelliannau yn effeithiol yn y dosbarth (O'Leary, 2014).

Wedi dweud hyn, credir bod yr adborth mwyaf cyson yn cael ei ennill trwy’r asesiadau anffurfiol sy’n cael ei osod gan yr athrawon o ddydd i ddydd (Hanover Research Group, 2014).

Er mwyn tanlinellu hyn, dywed Skildkamp (2019) bod barn broffesiynol athrawon yn ddull cyflym o gasglu data am anghenion y dysgwyr. Dadleuir bod strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn galluogi athrawon i dderbyn adborth am gynnydd disgyblion a chynllunio ar gyfer gwelliant yn syth (Wiliam, 2018). Mae hyn yn awgrymu bod angen cyfuniad o ddata ffurfiol ac anffurfiol wrth asesu perfformiad yr ysgol ac am y rheswm hwn, gallai'r ysgol wella trwy fonitro'r defnydd o ddulliau asesu ar gyfer dysgu yn eu cynllun datblygu.

Ymhellach, mae’n ffaith wybodus bod athrawon yn cael effaith arwyddocaol ar berfformiad eu disgyblion ac felly rhaid i gynllun datblygu nodi sut maent yn bwriadu cefnogi eu datblygiad proffesiynol (Llywodraeth Cymru, 2014). Er mwyn cyflawni hyn, mae’r pennaeth yn gosod targed rheoli perfformiad i athrawon ac yn cynnal cyfarfodydd i werthuso eu cynnydd dros y flwyddyn. Ond, os nad yw'r weithred yn adeiladu ar gryfderau'r athro, nid yw'n ddull gwerthfawrogol, sy’n gallu herio'r ysgol wrth gyflawni ei nod (Waters and White, 2015). Ar y cyfan, credir bod y targedau gorau wedi'u cysylltu'n glir â nod yr ysgol ac yn canolbwyntio ar wella deilliannau’r dysgwyr (Estyn, 2016).

Y rhan olaf o gylchred cynllun datblygu Llywodraeth Cymru (2014) yw sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu’r holl welliannau ac yn adolygu’r effaith yn erbyn y flaenoriaeth. Mae’r ysgol yn bwriadu adolygu effaith drwy gydweithio gyda’r llywodraethwyr. Bydd yr ysgol yn gwahodd y llywodraethwyr i fynd ar deithiau dysgu, er mwyn monitro perfformiad yr addysgu a diweddaru’r cynllun datblygu i adlewyrchu cynnydd yr ysgol. Er bod diffyg ymchwil rhwng rôl y llywodraethwyr a datblygiad ysgol, ystyriwyd yn ffrindiau critigol gwerthfawr sy’n herio’r ysgol i wella (Brighthouse a Woods, 2013).

Ymhellach, dywed Hanover Research Group (2014) bod angen cynnwys cynllun datblygu effeithiol yn cynnwys holl rhandeiliaid yr ysgol, gan gynnwys y gymuned ehangach. Ar wahân i weithio gyda llywodraethwyr, nid oes tystiolaeth i awgrymu bod yr ysgol yn gweithio gyda'r gymuned i ddatblygu safonau ysgrifennu plant. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2016) mae cynnwys rheini a busnesau lleol ym mywyd yr ysgol yn hollbwysig ar gyfer ehangu profiadau dysgu plant a gall gwella eu pherfformiad academaidd. Gan ystyried hyn, efallai byddai creu cysylltiadau gyda’r gymuned wedi bod yn fuddiol i helpu’r ysgol codi safonau ysgrifennu disgyblion.

Wedi ystyried yr holl ddadleuon, rhaid dod i’r casgliad bod y cynllun datblygu yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau ymchwil ar gyfer mesur effaith y camau gweithredu yn erbyn y flaenoriaeth.

Adfyfyrio a gwerthuso

I grynhoi, mae’r ysgol wedi creu cynllun datblygu manwl i godi safonau ysgrifennu disgyblion yng nghyfnod allweddol dau. Mae'n ddogfen fyw sy'n seiliedig ar ddata hunanarfarnu'r ysgol. Y prif nod yw cydweithio gydag eraill i sicrhau bod plant yn cyrraedd lefel 4 neu’n uwch o ran ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg, erbyn diwedd tymor yr haf. Pwrpas y rhan nesaf yw gwerthuso’r holl wybodaeth, er mwyn adolygu datblygiad yr ysgol ac awgrymu argymhellion posib ar gyfer y dyfodol.

Ar y cyfan, mae’r pennaeth, athrawon a’r llywodraethwyr yn datblygu’r ysgol drwy wneud penderfyniadau ar sail dystiolaeth. Maent yn gwerthuso canlyniadau disgyblion ac ansawdd yr addysgu i gynllunio gwelliannau sy’n codi safonau ysgrifennu. Ystyrir y defnydd o ddata yn ddull effeithiol ar gyfer profi cynnydd yr ysgol wrth gyrraedd eu nod (Skildkamp, 2019). Ond, gallai’r ysgol casglu mwy o wybodaeth am effaith yr amgylchedd ar gyflawniad eu disgyblion.

Mae amgylchedd yr ysgol yn cyfeirio at yr adnoddau ffisegol, yn ogystal â diwylliant yr ysgol (Cremin a Burnett, 2018). Dywedir bod amgylchedd yr ysgol yn dylanwadu ar ddysgu a lles plant a gall effeithio ar eu perfformiad yn y dosbarth (Estyn, 2019b), sy’n awgrymu os nad yw plant yn teimlo eu bod yn cael y gefnogaeth angenrheidiol, yna mae'n annhebygol y byddant yn cyrraedd eu llawn botensial.

Er mwyn oresgyn hwn, mae angen gwrando ar blant a gwerthuso effaith yr amgylchedd ar eu cyflawniadau (Brighthouse a Woods, 2013). Gall holiaduron fod yn un dull o gasglu data oddi wrth blant, (Hanover Research Group, 2014), ond ar yr un pryd, dylid cynnwys y plant yn eu dysgu i ddiwallu eu hanghenion yn ddyddiol (Husbands a Pearce, 2012). O ystyried hyn, efallai byddai’n ddefnyddiol i'r ysgol nodi’r ffactorau amgylcheddol sy’n gallu effeithio ar allu plant i wella safon eu hysgrifennu.

Wedi dweud hyn, gweithiodd y pennaeth gydag athrawon a llywodraethwyr i dderbyn adborth beirniadol am berfformiad yr ysgol ar gynnydd disgyblion. Mae ennill gwahanol safbwyntiau yn gryfder ar gyfer osgoi unrhyw ddehongliadau ffug am berfformiad yr ysgol (Skildkamp, 2019). Fodd bynnag, efallai byddai’r ysgol wedi elwa o gydweithio ymhellach gydag ysgolion arall i ehangu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o ran codi safonau ysgrifennu.

Yn benodol, gall ysgolion cymharu perfformiad ei gilydd drwy graffu ar waith eu disgyblion (Browne, 2009). Mae rhannu sampl o lyfrau yn effeithiol ar gyfer gwirio safon yr her a nodi’r camau nesaf (Graham a Kelly, 2010). Ymhellach, mae gweithio ar y cyd yn annog athrawon i fyfyrio ar eu harfer wrth gymryd rhan mewn deialog proffesiynol (Corbett a Strong, 2011). Ond, ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth o effaith cadarnhaol, yn ogystal ag argymhellion posib.

Casgliadau

Wrth dynnu tua’r terfyn, rhaid dod i’r casgliad bod y pennaeth yn cydweithio i gasglu data perthnasol am berfformiad yr ysgol ac yn datblygu eu staff er mwyn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad yr ysgol. Byddai ystyried rôl yr amgylchedd, casglu barn plant, a chydweithio gydag ysgol arall efallai’n helpu’r ysgol i wella eu perfformiad. Serch hyn, awgrymai’r holl dystiolaeth bod yr ysgol ar y trywydd iawn o ran gwella safonau ysgrifennu disgyblion yng nghyfnod allweddol dau.

Ymhellach, dysgais am bwysigrwydd cydweithio i greu cynllun datblygu ysgol a chodi safonau disgyblion. Am y rheswm hwn, byddaf yn sicrhau fy mod i’n cyfathrebu â holl staff yr ysgol, yn ogystal â thu hwnt, er mwyn gwella canlyniadau dysgwyr. Mae hyn yn unol â safonau proffesiynol wrth i Lywodraeth Cymru (2019b) nodi bod cydweithredu yn rhan hanfodol o rôl yr athro a datblygu addysgeg effeithiol.

Yn olaf, sylweddolais fod angen i athro parhau i ddatblygu ei ymarfer, er mwyn sicrhau ei fod yn medru codi safonau llythrennedd eu dysgwyr. Yn yr un modd, dywed Llywodraeth Cymru (2019b) bod datblygiad proffesiynol yn galluogi athrawon i ddatblygu safonau eu hunain, yn ogystal â chefnogi datblygiad eraill. O ganlyniad, byddaf yn parhau i ddatblygu safon fy Nghymraeg a Saesneg, yn ogystal â fy sgiliau addysgu, er mwyn addysgu iaith yn effeithiol ar draws y cwricwlwm a sicrhau bod pob dysgwyr yn cyrraedd eu llawn botensial.

Llyfryddiaeth

Baker, C. (2011) *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism.* (5ed Arg). Bryste; Multilingual Matters.

Barnes, J. (2011) *Cross-curricular Learning 3-14.* 2il Arg. Llundain: SAGE.

Brighthouse, T a Woods, D. (1999) *How to improve your school.* Llundain; Efrog Newydd; Routledge.

Brighthouse, T a Woods, D. (2013) *The A-Z of School Improvement: Principles and Practice,* Llundain: Bloomsbury Education.

British Educational Research Association (BERA). (2018) *Ethical Guidelines for Educational Research*. 4ydd Arg. Ar gael yn: https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018 (Darllenwyd: 20 Mawrth, 2020).

Browne, A. (2009) *Developing Language and Literacy 3-8* (3ydd Arg). Llundain: SAGE.

Cohen, L. Manion, L a Morrison, K. (2007) *Research Methods in Education*. 6ed Arg. London: Routledge

Cooperrider, D. (2012) 'The concentration effect of strengths: How the whole system "AI" summit brings out the best in human enterprise' *Organisational Dynamics*, 41, tud. 106-117.

Corbett, P a Strong, J. (2011) *Talk for writing across the curriculum: How to teach non-fiction writing 5-12 years,* Maidenhead: Open University Press.

Cremin, T a Burnett, C. (2018) *Learning to Teach in the Primary School*. 4ydd Arg. Llundain; Efrog Newydd: Routledge.

Daniëlsa, E. Hondeghema, A a Dochy, F. (2019) 'A review on leadership and leadership development in educational settings' *Educational Research Review,* 27, tud. 110-125.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu yng Nghymru*. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf (Darllenwyd, 18 Mawrth, 2020).

Estyn. (2016) *Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd*. Ar gael yn: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Leadership%20and%20primary%20improvement%20-%20new%20links_0.pdf (Darllenwyd, 21 Mawrth, 2020).

Estyn. (2019a) *Adroddiad ar Ysgol* [redacted] Ar gael yn: [redacted] (Darllenwyd 3 Mawrth, 2020).

Estyn. (2019b) *Iach a hapus – Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion,* Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Healthy%20and%20Happy%20report%20Cy_0.pdf (Darllenwyd 1 Ebrill, 2020).

Graham, J a Kelly, A. (2010) *Writing under control* (3ydd Arg). Llundain; Efrog Newydd: Routledge.

Hanover Research Group. (2014) *Best Practices for School Improvement Planning*. Ar gael yn: https://www.hanoverresearch.com/media/Best-Practices-for-School-Improvement-Planning.pdf (Darllenwyd 15 Mawrth, 2020).

Husbands, C a Pearce, J. (2012) *What makes great pedagogy? Nine claims from research*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/329746/what-makes-great-pedagogy-nine-claims-from-research.pdf (Darllenwyd 2 Ebrill, 2020).

Llywodraeth Cymru. (2014) *Cynlluniau datblygu ysgolion.* Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf (Darllenwyd 20 Mawrth, 2020).

Llywodraeth Cymru. (2016) *Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol Adnoddau 1–2*. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/thema-5-datblygu-partneriaethau-cymunedol-a-gweithio-amlasiantaethol-adnoddau-1-2.pdf (Darllenwyd 23 Mawrth, 2020).

Llywodraeth Cymru. (2017) *Cymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017 i 2021.* Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/y-gymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017%E2%80%9321.pdf (Darllenwyd, 20 Mawrth, 2020).

Llywodraeth Cymru. (2019a) *Cyflawniad academaidd disgyblion 4 i 14 oed mewn pynciau craidd, 2019.* Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/cyflawniad-academaidd-disgyblion-4-i-14-oed-mewn-pynciau-craidd-2019_0.pdf (Darllenwyd 20 Mawrth, 2020).

Llywodraeth Cymru. (2019b) *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.* Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/storage/ae783486-0851-4ec6-9e73-2e2b99515cf5/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf (Darllenwyd 2 Ebrill, 2020).

Massey, A. (2013) *Provision Mapping: Improving Outcomes in Primary Schools*. Llundain; Efrog Newydd: Routledge.

O'Leary, M. (2014) *Classroom Observation: A guide to the Effective Observation of Teaching and Learning,* Llundain; Efrog Newydd: Routledge.

Punch, F, K a Oancea, A. (2014) *An introduction to research methods in Education.* 2il Arg. Llundain; Efrog Newydd: SAGE.

Punch, F, K. (2009) *Introduction to Research Methods in Education*, Los Angeles, Calif; Llundain: SAGE.

Reynolds, D (2004). *School Effectiveness, School Improvement*. Llundain; Efrog Newydd: Continuum International Publishing Group.

Robert, E. (2009) 'Accommodating "new" speakers? An attitudinal investigation of L2 speakers of Welsh in south-east Wales', *International Journal of the Sociology of Language,* 195, tud. 93-115.

Schildkamp, K. (2019) 'Data-based decision-making for school improvement: Research insights and gaps', *Educational Research,* 61(3) tud. 257–273.

Stevenson, M. Hedberg, G. J. O'Sullivan, K a Howe, C. (2016) 'Leading learning: the role of school leaders in supporting continuous professional development' *Professional Development in Education,* 42(5), tud. 818-835.

Waters, L a White, M. (2015) 'Case study of a school wellbeing initiative: Using appreciative inquiry to support positive change', *International Journal of Wellbeing*, 5(1) tud. 19-32.

Wiliam, D. (2018) *Embedded Formative Assessment*. 2il Arg. Bloomington, Indiana: Solution Tree Press.